| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN |
| DYDDIAD: | 6 GORFFENNAF, 2017 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH |
| ADRODDIAD GAN: | YSGRIFENNYDD YR YMDDIRIEDOLAETH |
| GWEITHREDU: | Gofynnir i'r Aelodau'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys yr adroddiad a phenderfynu ar yr argymhellion. |

## PENODI SWYDDOGION AC AELODAU I BWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH

1. Cyngor Sir Ynys Môn yw Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn gweithredu drwy ei aelodau. Pan yn gweithredu fel Ymddiriedolwr maent yn gwneud hynny yn gwbl ar wahân i'r Cyngor.

   Yn dilyn Etholiadau'r Cyngor ym Mai 2017 mae angen penodi aelodau i weithredu fel swyddogion i'r Ymddiriedolaeth yn ogystal â phenderfynu ar y strwythur o bwyllgorau, a phenodi yn eu tro aelodau i'r pwyllgorau hynny. Mae'r materion hyn yn fater i'w benderfynu ar y cyd rhwng holl aelodau'r Ymddiriedolaeth.

2. Yn hanesyddol mae'r Ymddiriedolwr wedi gweithredu gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd ynghyd a thri o bwyllgorau sef,
   - Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau;
   - Pwyllgor Grantiau Cyffredinol;
   - Pwyllgor Adfywio.

3. Mater arall sydd angen sylw yw'r cwestiwn o gydbwysedd gwleidyddol ar y pwyllgorau. Yn y cyd-destun hwn mae'r aelodau wedi ceisio osgoi cyflwyno agweddau gwleidyddol yng ngweithrediadau'r Ymddiriedolaeth a'r disgwyl oedd bod pob aelod yn gwasanaethu ar un o'r tri phwyllgor.

4. Yn sgil yr uchod, a'r ffaith fod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno cais i newid strwythur llywodraethiant i Sefydliad Elusennol Corfforedig (SEC/CIO), argymhellir yn y tymor byr i barhau gyda'r trefniadau cyfredol gan gymryd y cyfle i adolygu'r strwythur pwyllgorau pan fo penderfyniad terfynol y Comisiwn Elusennol yn hysbys.

## 5. Argymhellion

Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd a thrwy hynny cadarnhau ei rôl yn awdurdodi gwariant.

Penodi aelodau i weithredu ar y pwyllgorau

- Buddsoddiadau a Chontractau;
- Grantiau Cyffredinol;
- Adfywio

gan weithredu’r egwyddorion gwleidyddol uchod.